Yr Amgylchedd

Mae'r British Council yn creu cyfleoedd rhyngwladol i bobl y DU a gwledydd eraill gan feithrin ymddiriedaeth rhyngddynt yn fyd-eang. Mae ein gweithrediadau a'n gweithgareddau busnes yn cael effaith ar yr amgylchedd ac rydym yn ymrwymedig i reoli a lleihau'r effaith honno.

Mae ein System Rheoli Amgylcheddol wedi ennill ardystiad ISO14001 ym mhob cwr o'n hystad yn y DU ac mae ein cynllun gweithredu amgylcheddol yn gosod targedau ar gyfer lleihau ein hôl troed carbon yn y DU.

Rydym yn defnyddio ein Hadnodd Fframwaith Amgylcheddol i reoli ein heffaith amgylcheddol mewn mwy na 100 o wledydd yn ein rhwydwaith rhyngwladol.

Mae'r British Council yn ymrwymedig i'r canlynol:

- adolygu, deall a rheoli'r amrywiaeth o effeithiau amgylcheddol sy'n deillio o'i weithgareddau
- sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol y DU ac yn rhyngwladol
- pennu amcanion a thargedau amgylcheddol ar gyfer gweithgareddau ag effaith amgylcheddol sylweddol
- cyfleu ei gynnydd o ran lleihau ei effaith ar yr amgylchedd i randdeiliaid mewnol ac allanol
- monitro a gwella effaith amgylcheddol ei deithiau busnes ac ystyried ffyrdd newydd o gyflawni ei waith yn gynaliadwy.

Byddwn yn darparu adnoddau digonol a phriodol i roi'r polisi hwn ar waith ac yn sicrhau y caiff ei gyfleu a'i ddeall.

Bydd y British Council yn adolygu'r datganiad polisi byd-eang hwn yn flynyddol er mwyn adlewyrchu datblygiadau cyfreithiol a rheoliadol newydd a hyrwyddo arfer da.

Cymeradwywyd y datganiad polisi byd-eang hwn gan Ciarán Devane, Prif Weithredwr, ym mis Chwefror 2015 a chaiff ei adolygu ym mis Chwefror 2016.